# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 19 Gorffennaf 2017 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 24 Gorffennaf 2017 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 31 Gorffennaf 2017 |

---

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd

---

**PWNC**

Cymryd Prydles o Swyddfeydd llawer gwaelod Linden House, Parc Busnes Wyddgrug ar ran GwE (Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru)

---

**PENDERFYNIAD –**

I awdurdodi cymryd y byrydles o swyddfeydd llawr gwaelod Linden House ar ran GwE a hynny ar delerau ac amodau I'w bennu gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol.

---

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr adroddiad atodedig

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd, adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

---

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Meilir Hughes<br>Rheolwr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad : | 19 - 07 - 2017 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc:**

Cymryd prydles o Swyddfeydd llawr gwaelod Linden House, Parc Busnes Wyddgrug ar ran GwE (Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogeledd Cymru).

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

I awdurdodi cymryd prydles o swyddfeydd llawr gwaelod Linden House, Parc Busnes Wyddgrug, Ffordd Wrexham, CH7 1XP ar ran GwE (Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru), a hynny ar delerau ac amodau i'w pennu gan yr Uwch Reolwr Eiddo Corfforaethol.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Mae GwE yn dymuno cymryd prydles o'r newydd o swyddfeydd llawr gwaelod Linden House, Parc Busnes Wyddgrug. Nid oes gan GwE endid cyfreithiol i ddal prydlesi. Gan fod Cyngor Gwynedd yn awdurdod Lletyol i GwE, mae gofyn i Gyngor Gwynedd ddal prydlesi ar eu rhan. Nid oes hawliau dirprwyedig wedi eu cynnwys yng nghyfansoddiad y Cyngor i gymryd prydlesi o'r newydd, ac felly mae angen ceisio awdurdod ar ffurf Taflen Benderfynniad Aelod Cabinet.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae GwE ar hyn o bryd wedi eu lleoli yn Neuadd y Sir, Wyddgrug, sydd ym mherchnogaeth Cyngor Sir y Fflint. Oherwydd cyflwr yr adeilad, mae Cyngor Sir y Flint yn y broses o gau sawl rhan o'r adeilad. O ganlyniad, nid oes gofod digonol ar gael yn yr adeilad er mwyn ddiwallu anghenion GwE, ac maent wedi adnabod gofod addas yn swyddfeydd Linden House.

Yn ogystal â darparu gofod swyddfa newydd i'r tîm yn y Wyddgrug, bydd Swyddfeydd Linden House yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer cynnal cyfarfodydd, sesiynau hyfforddi ayyb. Bydd hyn yn golygu lleihad mewn costau i GwE o ran llogi gofod ar gyfer cynnal cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi.

Yn yr achos yma bydd Cyngor Gwynedd fel awdurdod lletyol yn dal y brydles, ond bydd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r brydles yn cael ei ariannu gan GwE.

Nid oes bwriad i dalu dim mwy na rhent y farchnad am y gofod.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Dim.

**Prif Weithredwr** –

**Prif Swyddog Cyllid** –
"Fel yr eglura'r adroddiad a sylwadau'r Swyddog Monitro, rhaid i'r Cyngor arwyddo'r brydles gan mai'r Cyngor sy'n darparu endid cyfreithiol ar gyfer cytundebu ar ran GwE. Rwyf yn fodlon y bydd costau'r brydles yn daladwy'n llawn gan GwE, ac na fyddai'r penderfyniad yma yn ychwanegu baich ariannol ar y Cyngor.

**Swyddog Monitro** –
Fe nodir yn yr adroddiad fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel awdurdod lletyol ar gyfer partneriaeth GwE. Golygai hyn mai Gwynedd sydd yn darparu endyd cyfreithiol ar gyfer cytundebu ar ran GwE.
Rheolir y berthynas yma gan gytundeb rhyng awdurdod sydd yn darparu ar gyfer di-golledu a darparu indemnebau i'r Cyngor pan yn gweithredu ar ran bartneriaeth megis yn yr achos yma.

**Aelod/au Lleol** – Dim yn fater lleol.